Pennod Tri

Egwyddorion sylfaenol

Peidio â gwahaniaethu: plant sy'n derbyn gofal

Mike Lewis – Plant yng Nghymru

Egwyddorion sylfaenol: peidio â gwahaniaethu (Erthygl 2)

Plant sy'n derbyn gofal

SYLW TERFYNOL para.22. Mae'r pwyllgor yn pryderu oherwydd:
Nid yw'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu'n cael ei dilyn yn fanwl ar gyfer yr holl blant ym mhob rhan o'r parti Gwladwriaeth a cheir anghydraddoldeb o hyd o ran mwynhau hawliau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, sifil a gwleidyddol, yn enwedig yn achos plant sydd ag anableddau, plant o deuluoedd tlawd, plant i bobl grwydrol Wyddelig a Roma, plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, plant mewn grwpiau lleiafrifol, **plant yn y system gofal**, plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, a phlant rhwng 16 a 18 mlwydd oed.

Erthyglau perthnasol yn CCUHP: Mae Erthygl 20 yn uniongyrchol berthnasol.

Sylwadau ar y cynnydd

"mae rhai sy'n ymadael â gofal yn 50 gwaith yn fwy tebygol o fynd i'r carchar, yn 60 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddigartref ac yn 88 gwaith yn fwy tebygol o fod â rhan mewn defnyddio cyffuriau na phlant a phobl ifanc nad ydynt wedi 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol" [1]

Yn yr adran hon ceir arolwg o'r ddeddfwriaeth, y polisi a'r ymarfer a gafwyd mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ers i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig roi ei adroddiad yn 2002. Mae erthyglau eraill yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â materion sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft: amddiffyn plant rhag camdriniaeth (Erthygl 19), hawl plant i gymryd rhan mewn materion sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12), mynediad i wasanaethau – mynediad i ofal iechyd yn benodol (Erthygl 24) a mynediad i addysg o ansawdd da (Erthygl 28).

Tystiolaeth ystadegol (bylchau yn y data sydd ar gael)

Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth ystadegol ar gael am blant sy'n derbyn gofal hyd at Fawrth 2005.[2] Yn fyr, mae'r data sydd wedi'u casglu'n dangos bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel poblogaeth yn gwneud yn waeth o lawer na phlant a phobl ifanc eraill. Er gwaethaf y gostyngiad bach yn 2005, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi codi bob blwyddyn rhwng 1997 (3290 o blant) a 2004 (4431 o blant). Mae'r tuedd cynyddol hwn wedi peri straen mewn system sy'n profi anawsterau'n gyffredinol ac mae'r canlyniadau gwael sy'n dal i ddod i ran plant sy'n derbyn gofal yn peri pryder o hyd i amryw o grwpiau proffesiynol ac i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd eu hunain.

O edrych ar y data ar y dangosyddion perfformiad allweddol, gwelir yn glir fod llawer o awdurdodau'n tanberfformio o'u cymharu ag eraill. Er enghraifft, yn achos cyrhaeddiad addysgol yn 16 oed, roedd yr awdurdod a oedd â'r sgôr isaf yng Nghymru wedi cael sgôr o 0% ar gyfer cymwysterau TGAU/GNVQ, a'r awdurdod â'r sgôr uchaf wedi cael ychydig dros 80%. Yn yr un modd, mae'r ffigurau am y rhai sydd â chynllun gofal wrth ddod i'r system derbyn gofal yn amrywio ledled Cymru o 100% o blant i ychydig dros 40%. Mae'r amrywiadau mawr hyn i'w gweld dro ar ôl tro yn y 33 o ddangosyddion sy'n cael eu casglu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'n ymddangos, hyd yn oed lle y ceir polisïau effeithiol, fod y rheini'n cael eu gweithredu'n aneffeithiol. Yn ei adroddiad diweddaraf ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, nododd y Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol wrth sôn am y Gwasanaethau Cymdeithasol fod *"rhannau ohonynt yn dda ond bod gormod o rannau nad ydynt yn ddigon da"*.[3] Mae'r crynodeb hwnnw'n arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal lle y mae'r arferion yn amrywio'n fawr o ran eu hansawdd a'u heffeithiolrwydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud yr ymchwil ganlynol ers 2002:

- Astudiaeth o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (Gorffennaf 2005).
- Plant mewn lleoliadau arbenigol – astudiaeth o Gymru gyfan (Gorffennaf 2004).
- Adolygiad o faethu a gofal preswyl (Mehefin 2004).
- Disgrifiad o ofal maeth a gofalwyr maeth yng Nghymru (Mehefin 2004).

At ei gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn cyfleu darlun sydd yr un fath â'r un a drafodwyd uchod. Ar ben hynny, er ei bod yn amlwg bod rhai o'r data a gesglir yn fuddiol, nid oes unrhyw ddata ansoddol neu ddata am ansawdd bywyd wedi'u casglu eto ac, oherwydd hynny, mae bylchau mawr yn ein gwybodaeth am brofiadau bywyd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Nid oes dim o'r data sydd wedi'u casglu'n rhoi gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag ethnigrwydd ac anabledd ymhlith plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. O ran perfformiad addysgol, gwyddom fod diffyg sgiliau rhifedd a llythrennedd ymhlith llawer o blant sy'n derbyn gofal ac eto ni wyddom am eu nifer nac am yr awdurdodau lleol hynny sy'n ceisio gwella'r sefyllfa hon.

Deddfwriaeth – plant sy'n derbyn gofal (2002 – 05)

Rhai o'r canllawiau a'r eitemau deddfwriaeth perthnasol yw:

- *Canllawiau Swyddogion Adolygu Annibynnol Cymru, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004.*
- *Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) ac Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2002. Offeryn Statudol Cymru 2002 Rhif 3013 (Cy. 285).*
- *Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004. Offeryn Statudol Cymru 2004 Rhif 1449 (Cy. 149).*
- *Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2002. Offeryn Statudol Cymru 2002 Rhif 1855 (Cy. 179).*
- *Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2004. Offeryn Statudol Cymru 2004 Rhif 1732 (Cy. 175).*

Mae newidiadau i *Ddeddf Plant 1989*, a gyflwynwyd yn *Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002*, yn rhoi hawl statudol i blant mewn angen a rhai sy'n ymadael â gofal i gael eiriolaeth os ydynt yn bwriadu gwneud cŵyn.

Yn ogystal â hynny, bydd y rhannau perthnasol o *Ddeddf Plant 2004* sy'n dod i rym yn 2006 yn cael effaith ar y boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hon yn berthnasol gan y bydd o gymorth i wella'r prosesau cynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd yn cyflwyno gofyniad newydd i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal a bydd yn rheoleiddio gwasanaethau maethu preifat.

Canllawiau – plant sy'n derbyn gofal (2001 – 05)

- *Canllawiau ar addysg plant sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol (2001).*
- *Brîff a safonau i gynllunio ar gyfer sefydlogrwydd (2002).*
- *Datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth Chwefror (2003).*
- *Canllawiau ar gwynion yn y GIG ac mewn Addysg.*
- *Y trefniadau ar gyfer asesiadau iechyd cyfannol i blant sy'n derbyn gofal.*
- *Archwilio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n ymadael â gofal (2004).*
- *Archwilio gwasanaethau amddiffyn plant: adroddiad ar arolwg (2004).*
- *Archwilio'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.*
- *Adroddiad y Prif Arolygydd 2001/2002/2003/2004.*
- *Llawlyfr i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da (2005).*

Mae canllawiau ar faethu preifat a gwella iechyd plant sy'n derbyn gofal i'w cyflwyno.

Polisi ac ymarfer

Er mwyn gwella sefyllfa plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei rhaglen *Rhoi Plant yn Gyntaf* yn Ebrill 1999. Mae'r rhaglen hon yn effeithio ar yr holl blant sydd mewn angen, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal.

Mae *Rhoi Plant yn Gyntaf* yn cynnwys amcanion i Gymru gyfan ar gyfer gwasanaethau plant a dangosyddion allweddol cysylltiedig sy'n ymwneud â'r canlyniadau i blant. Ei hamcan yw meithrin partneriaeth rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac mae'n cymell aelodau etholedig i chwarae rhan bwysig fel y 'rhiant corfforaethol', a ddylai sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith a bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael ar lefel leol.

Mae prif amcanion y rhaglen mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n derbyn gofal[4] yn cynnwys cynllunio mwy effeithiol, gwelliannau yn yr holl wasanaethau perthnasol, gwell ymwneud â defnyddwyr a sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Y grant yn 2005-06 yw £42.171 miliwn ac mae i godi i £44.709 miliwn yn 2006-07 ac i £46.297 miliwn yn 2007-08. Dros y tair blynedd hyn, bydd y grant *Rhoi Plant yn Gyntaf* yn troi o fod yn gyllid sydd wedi'i glustnodi ac yn cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw erbyn 2008. Mae llawer o'r cyrff sy'n aelodau o Plant yng Nghymru yn teimlo na ddylai'r rhaglen ddod i ben hyd nes y bydd wedi sicrhau canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal sy'n gystal â'r rhai ar gyfer y boblogaeth nad yw mewn gofal. Felly mae rhai aelodau'n teimlo ei bod yn bosibl y bydd angen i'r cyllid sydd wedi'i glustnodi barhau ar ôl 2008.

Rhai o'r camau gweithredu ym maes polisi sydd wedi'u cymryd dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu amcanion *Rhoi Plant yn Gyntaf* dros y pedair blynedd diwethaf yw:

- Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth (2004-2005).
- Gweithgor ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.
- Gweithgor ar y Dewis o Leoliadau a'u Sefydlogrwydd.

Anodd yw gwneud sylw am y cynnydd a wnaed ar rai o ddangosyddion *Rhoi Plant yn Gyntaf,* gan nad oedd rhai o'r dangosyddion wedi'u mesur cyn cyflwyno'r rhaglen. Serch hynny, maent wedi bod yn allweddol wrth godi safonau a disgwyliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Y testun pryder pennaf yw bod y cynnydd mewn rhai awdurdodau'n araf iawn.

Mae'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (FfGC)* yn pennu safonau ar gyfer y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill mewn llywodraeth leol sy'n fawr eu dylanwad ar iechyd a lles plant. Lansiwyd y *FfGC* ym Medi 2005. Mae'n cynnwys 21 o safonau ac yn pennu amryw o gamau gweithredu allweddol i gyrraedd y safonau hynny, gan roi mwy o flaenoriaeth i rai ohonynt. Rhai o'r darpariaethau allweddol mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yw cynllunio effeithiol ar gyfer gofal iechyd a gwell cyd-drefnu ar ofal iechyd gan gynnwys gwell comisiynu. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r sectorau gwirfoddol a statudol yng Nghymru'n ystyried bod y *FfGC* yn ffactor allweddol i sbarduno newid dros y deng mlynedd nesaf a dylai fod yn gymorth i godi'r safonau mewn gwasanaethau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Ym mis Mawrth 2005 sefydlwyd Adolygiad o Ddiogelu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i werthuso'r sefyllfa mewn cysylltiad ag amddiffyn plant gan gynnwys materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn datblygu Strategaeth Comisiynu ar y Cyd er mwyn sicrhau lleoliadau mwy effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Ar ôl cyhoeddi ei *Strategaeth ar gyfer Datblygu'r Gweithlu*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi codi mater allweddol arall. Un o argymhellion yr adroddiad hwnnw[5] yw y dylid datblygu a gwella ansawdd y gweithlu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Un datblygiad addawol yw bod rhai awdurdodau

wedi rhoi sylw i'r mater hwn, a bod hynny wedi arwain at welliannau sylweddol yn yr adnoddau sydd gan dimau gofal plant fel bod gweithwyr cymdeithasol yn cael eu neilltuo ar gyfer mwy o bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw hynny wedi digwydd ym mhob un o'r awdurdodau lleol.

Mae llawer o bryder o hyd ymysg yr holl bleidiau yn y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch cyflwr y gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru fel y dangoswyd mewn pedair dadl ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2005. Ar lefel wleidyddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan ei bod o blaid rhoi grantiau gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ac mae'n ystyried is-ddeddfwriaeth ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

Rôl y Comisiynydd Plant

Sefydlwyd y Comisiynydd Plant yng Nghymru ar 1 Mawrth 2001 ac mae wedi ymgyrchu ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl sy'n derbyn gofal ers creu'r Swyddfa. Roedd y Swyddfa wedi'i datblygu o ganlyniad uniongyrchol i bryderon a godwyd ynghylch cam-drin plant sydd dan ofal cyhoeddus yn Adroddiad Waterhouse.[6] Yn 2003 cyhoeddodd y Comisiynydd Plant *Datgan Pryderon*, adolygiad o weithrediad y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno cwynion a sylwadau a datgelu camarfer a threfniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant.[7] Prif gasgliad yr adroddiad hwn oedd bod y ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno cwynion a sylwadau'n amrywio o ran ei hansawdd a bod llawer o blant a phobl ifanc nad oeddent yn ymwybodol o'u hawl i gwyno. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol yn ymateb i'r argymhellion a geir ynddo. Yn 2004, rhoesant gomisiwn i Brifysgol Caerdydd i ymchwilio i'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriol i blant a phobl ifanc mewn cysylltiad â chyflwyno cwynion. Yn yr adroddiad ar yr astudiaeth honno[8] nodir bod gwasanaethau eiriolaeth yn ei chael yn arbennig o anodd 'cyrraedd' rhai o'r plant sy'n fwyaf agored i niwed ac yn profi anhawster wrth gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth mewn hinsawdd lle y ceir ariannu tymor byr sydd yn aml yn ansicr.

Gwaith cyrff anllywodraethol

Ceir amrywiaeth mawr o gyrff anllywodraethol sy'n ymgyrchu ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn eu plith y mae grwp sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth – Tros Gynnal, NSPCC, Spurgeons a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Mae'r corff Voices from Care yn dal i ymgyrchu ar faterion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Voices from Care yw'r unig gorff yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cael ei arwain gan y bobl ifanc eu hunain. Yn ogystal â hynny, mae BAAF, sef Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain, a'r Rhwydwaith Maethu yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgynghori ac yn ymgyrchu i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae Plant yng Nghymru hefyd yn trefnu Rhwydwaith Iechyd ar gyfer Rhai sy'n Derbyn Gofal ac wedi ymgyrchu ar nifer o faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd diwethaf.

Ers cyhoeddi Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn 2002, mae rhai o'r cyrff anllywodraethol mwyaf sy'n ymwneud â phlant[9] wedi ymgyrchu ar y cyd ar amryw o faterion polisi sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae amcanion yr ymgyrchoedd hynny'n berthnasol o hyd a thestun pryder yw nad oes yr un o'r camau gweithredu y galwyd amdanynt wedi'u cymryd eto yng Nghymru (gweler yr argymhellion isod). Er bod gwaith yn mynd ymlaen yn awr i gyflawni rhai ohonynt, mae'n dal i fod yn destun pryder bod y newid mewn gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn araf iawn at ei gilydd.

Casgliad

Mae'r sefyllfa a etifeddwyd yng Nghymru mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi'i disgrifio mewn adroddiadau blaenorol gan gyrff anllywodraethol. Er nad oes digon o le i fanylu yma, mae'n bwysig cydnabod y gamdriniaeth gorfforol a rhywiol systematig a brofodd plant mewn gofal o'r 1960au i ganol y 1990au.[10 11] Digon yw dweud bod cryn ymdrech wedi'i gwneud, oherwydd y gamdriniaeth yn y gorffennol a'r disgwyliadau isel o ran plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, i wella'r canlyniadau ar gyfer y grwp hwn o blant a phobl ifanc. Er hynny, mae cryn waith i'w wneud eto cyn y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

yn cael yr un canlyniadau â phlant nad ydynt yn derbyn gofal. O ran y profiadau addysgol a gaiff plant sy'n derbyn gofal, mae ymchwil ddiweddar[12 13] yn dangos bod lle mawr i bryderu o hyd ynghylch y grwp plant hwn. Er bod y canlyniadau i rai plant a phobl ifanc wedi gwella'n sylweddol, nid ydynt wedi newid fawr ddim yn achos rhai eraill. Ceir pryderon o hyd hefyd ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Er bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu mewn enw o leiaf gan bron bob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r gwasanaethau'n dal i ddibynnu ar gyllid tymor byr a threfniadau comisiynu tameidiog. Ers i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig adrodd yn 2002, mae'r sefyllfa'n dal i beri pryder ac mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn aros o hyd i weld gwireddu eu holl hawliau.

Prif argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau, drwy weithio gydag awdurdodau lleol:

- Pwyslais parhaus a chynyddol ar gynnig amryw o leoliadau o safon da i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.
- Gwelliannau sylfaenol yn y gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd (enwedig iechyd meddwl), addysg a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Strategaeth eiriolaeth i Gymru gyfan ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru.
- Pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Annog awdurdodau lleol i fod yn well rhieni corfforaethol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Mwy o ddewis o lety ar gyfer rhai sy'n ymadael â gofal, gan gynnwys mwy o ddefnydd o lety â chymorth a galluogi mwy o bobl ifanc i aros mewn lleoliadau maethu.
- Plant a phobl ifanc mewn gofal yn gallu cadw lleoliadau sicr a dymunol.

Ôl-nodiadau

[1] Barnardo's, y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant, Plant yng Nghymru, Cymdeithas y Plant, NSPCC, SCF. (2000) *Plant Cymru, Ein Dyfodol – Maniffesto.*

[2] Gweler www.lgdu-wales.org.uk

[3] Adroddiad Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2003-2004, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Tachwedd 2004.

[4] Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 05/2005. Rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer 2005-2006.

[5] Adroddiad y grwp gorchwyl a gorffen ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol, Medi 2001 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[6] Waterhouse, R. Clough, M. a Le Fleming, M. (2000) *Adroddiad y tribiwnlys ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn hen ardaloedd cyngor sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974*, HC21, Llundain, Llyfrfa Ei Mawrhydi.

[7] Y Comisiynydd Plant (2003) *Datgan Pryderon.* Gellir ei lwytho i lawr o www.childcom.org.uk

[8] Pithouse, A. et al (2005) *A Study of Advocacy Services for Children and Young People in Wales*. Prifysgol Caerdydd ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru.

[9] Barnardo's, y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant, Plant yng Nghymru, Cymdeithas y Plant, NSPCC, NCH.

[10] Utting,W. (1997) *People Like us : the report of the Review of Safeguards for children living away from home,* Llundain, yr Adran Iechyd.

[11] Waterhouse, R. Clough, M. a Le Fleming, M. (2000) Adroddiad y tribiwnlys ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn hen ardaloedd cyngor sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974, HC21, Llundain, Llyfrfa Ei Mawrhydi.

[12] Uned Allgáu Cymdeithasol (2003) A better education for children in care, Llundain. Uned Allgáu Cymdeithasol.

[13] S. Jackson, S. Ajayi ac M. Quigley, (2005) Going to Care from University. Ymddiriedolaeth Frank Buttle.